
Dogfen Ymgynghori Statudol Plant a Phobl Ifanc

# Adolygiad o Ysgolion Catholig yn Sir y Fflint





Cynnig i Ad-drefnu'r Ddarpariaeth Addysg Gatholig yn Sir y Fflint

Y Cyfnod Ymgynghori: 16 Mehefin 2026 i 29 Gorffennaf 2026

# Pwy ydym ni

Cyngor Sir y Fflint sy’n gyfrifol am yr holl ysgolion yn ein hardal.

Rydyn ni’n rhan o dîm sy’n gweithio i’r Cyngor i gefnogi ysgolion.





# Pam rydan ni'n gofyn am eich barn eto?

- Rydan ni wedi siarad â phobl am y cynlluniau yma o'r blaen, ond bu'n rhaid i ni oedi'r broses yn gynharach eleni.
- Roedd hyn oherwydd bod cwestiwn cyfreithiol wedi'i godi oedd angen ei archwilio'n ofalus.
- Tra oedd hyn yn cael ei ystyried, rhedon ni allan o amser i ddilyn y rheolau swyddogol ar gyfer ymgynghori.
- Rŵan mae angen i ni ailgychwyn y broses ymgynghori er mwyn bod:
  - Popeth yn dilyn y rheolau diweddaraf
  - Pawb yn cael cyfle teg i leisio eu barn
- Rydan ni'n dal i feddwl y gallai'r cynlluniau yma fod yn ffordd dda o wella ysgolion, ac rydan ni eisiau clywed beth ydych chi'n ei feddwl cyn gwneud unrhyw benderfyniadau.





CYNGOR Sir y Fflint Flintshire COUNTY COUNCIL

# Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, neu'r CCUHP, yn rhestr o hawliau sydd gan bob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru ac ar draws y byd.

Mae Erthygl 12 yn sicrhau bod gennych hawl i leisio eich barn a chael eich clywed.

Dysgwch fwy drwy glicio ar y lluniau isod




PLANT YNG NGHYMRU CHILDREN IN WALES

Comisiynydd Plant Cymru Children's Commissioner for Wales








# Ein Nodau

- Rhoi'r cyfle gorau i bob plentyn ddysgu mewn ysgolion ardderchog yn ein hardal.
- Darparu adeiladau ysgol diogel a chadarn.
- Gwneud yn siŵr fod arian ar gyfer plant ac ysgolion yn ein hardal yn cael ei wario'n deg.
- Rhoi cyfle i bawb leisio eu barn a gwrando ar farn pawb am benderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw.





# Ysgolion Catholig

Caiff eich ysgol ei chynnal gan yr Eglwys Gatholig

Pump Ysgol Gynradd

- Ysgol Gynradd Sant Anthony yn Saltney
- Ysgol Gynradd Dewi Sant yn yr Wyddgrug
- Ysgol Gynradd y Santes Fair yn y Fflint
- Ysgol Gynradd Santes Gwenffrewi, Treffynnon.
- Ysgol Gynradd Yr Hybarch Edward Morgan, Shotton.

Un Ysgol Uwchradd

- Ysgol Uwchradd Sant Richard Gwyn





# Newidiadau

Nid yw bob amser yn bosib' i bob ysgol aros fel maen nhw ac ambell waith mae hyn yn golygu bod angen i'r Eglwys a'r Cyngor wneud rhai newidiadau pwysig.

Gall newidiadau helpu i roi'r cyfle gorau i bawb ddysgu, yn yr ysgol orau bosib'.





# Beth mae hyn yn ei olygu

Rydyn ni wedi edrych ar lawer o bethau sy'n gallu helpu ysgolion i roi'r addysg orau bosib' i blant.

Pethau fel:

- A yw'r adeilad yn ddiogel ac yn le braf i fod ynddo?
- Pa mor hawdd mae'r adeilad yn ei gwneud i ddysgu ynddo
- Nifer y plant sydd yma
- Faint o blant ydyn ni'n ei feddwl fydd yn dod yma yn y dyfodol








# Beth oedd ein casgliadau

- Mae rhai adeiladau mewn cyflwr gwael
- Mae rhai ystafelloedd yn rhy fach neu nid ydynt y siâp cywir felly gall fod yn fwy anodd dysgu neu chwarae
- Mae cynnal a chadw adeiladau ysgolion yn costio llawer o arian
- Mae gan rhai ysgolion llawer o le i ragor o blant







# Beth rydyn ni'n ei feddwl

Rydym wisiau adeiladu ysgol newydd.
Bydd ysgol newydd:

- Ar gyfer plant cynradd ac uwchradd
- Mewn cyflwr gwych.
- Bydd â dosbarthiadau sy'n fawr ac yn gyfforddus
- Bydd yn defnyddio ynni'n fwy effeithlon i warchod ein planed
- Yn arbed arian ar waith atgyweirio ac ynni
- Rhoi mwy o gyfleoedd i athrawon ddysgu hefyd
- Yn helpu plant i symud o ysgol gynradd i ysgol uwchradd








# Ble i adeiladu ysgol newydd

Mae angen llawer o le i adeiladu ysgol newydd i blant cynradd ac uwchradd.

Nid yw tir yn Sant Anthony, Dewi Sant, Santes Gwenffrewi a’r Hybarch Edward Morgan ddigon mawr.

Mae’r Santes Fair a Sant Richard wrth ymyl ei gilydd, gyda llawer o dir o’u hamgylch. Mae ganddynt lawer o ddisgyblion hefyd.

Dyna pam ein bod ni’n meddwl mai’r Fflint yw’r lle gorau.





# Yr ysgolion eraill sy'n cymryd rhan

Mae gormod o leoedd ar gael mewn perthynas â faint gall Sant Anthony, Dewi Sant a'r Hybarch Edward Morgan ddysgu.

Mae gan ysgolion bethau o'u lle gyda'r adeiladau, a chyda siâp a maint yr ystafelloedd.

Mae gan y Santes Gwenffrewi broblemau tebyg gydag adeiladau, ac mae ganddynt leoedd ar gael, ond llai na'r gweddill yn nhermau faint y gall ddysgu.





# Beth rydym yn ei feddwl hefyd

Dylai Sant Anthony a (safle) Dewi Sant gau.

Dylai'r Hybarch Edward Morgan aros fel y mae.
Rydym yn meddwl hyn oherwydd gall rhai disgyblion o Sant Anthony fynd yma yn lle, gan helpu leihau nifer y lleoedd ar gael.

Dylai Santes Gwenffrewi aros fel y mae.
Er bod nifer y lleoedd gwag ar gyfer disgyblion yn uchel, maent yn iawn o'u cymharu a'r dair ysgol arall.





# Cau ysgolion

Nid yw unrhyw un yn hoffi cau ysgol.

- Rydym yn deall y gall hyn gael effaith fawr ar y disgyblion sy’n mynd i ysgol rydym yn credu y dylai gau.
- Rydym yn deall y gall hyn gael effaith fawr ar y bobl sy’n gweithio mewn ysgol rydym yn credu y dylai gau.
- Rydym hefyd yn deall y gall hyn gael effaith fawr ar y gymuned a’r ardal leol ble mae’r ysgol rydym yn credu y dylai gau.







# Effaith ar Ddisgyblion

Plant sy'n mynd i ysgol sy'n cau:

- Bydd yn rhaid iddynt deithio i ysgol arall.
- Bydd yn rhaid i rai disgyblion deithio'n bellach i fynd i'r ysgol newydd, a disgyblion eraill yn teithio llai.
- Bydd yn cymryd mwy o amser i rai disgyblion gyrraedd yr ysgol newydd, a llai i eraill.
- Byddant yn cael gwisg ysgol newydd.





# Anodd ond Cywir

Er ein bod yn gwybod mor anodd all hyn fod i bawb, rydyn ni'n dal i gredu mai dyma'r peth cywir i'w wneud.

Rydym yn meddwl ei bod yn iawn i gau Sant Anthony a (site) Dewi Sant oherwydd mae'n golygu:

- Y nifer cywir o ysgolion Catholig ar gyfer Sir y Fflint, a'r nifer cywir o leoedd.
- Na fydd angen hen adeiladau sy'n ddrud i'w rhedeg a'u cadw.
- Y bydd lle gwell i'r disgyblion ddysgu.





# Y Cynnig

Beth rydyn ni'n ei feddwl ddylai ddigwydd yw:

- Cauy Sant Anthony
- Uno Dewi Sant, y Santes Fair, a Sant Richard Gwyn, i ffurfio ysgol newydd
- Adeiladu ysgol newydd yn y Fflint
- Mae pob disgybl yn symud i'r ysgol newydd pan mae hi'n agor





# Beth sydd angen digwydd

- Mae'n rhaid i ni ofyn barn llawer o bobl.
- Rhaid i ni gymryd atebion pawb a'u rhoi at ei gilydd.
- Bydd Cabinet y Cyngor, sy'n gwneud penderfyniadau pwysig, yn penderfynu a ddylem ni barhau.
- Os felly, byddwn yn gofyn i bobl ydyn nhw'n gwrthwynebu i'r cynnig (meddwl ei fod yn syniad gwael).
- Bydd Cabinet y Cyngor yn penderfynu a ddylem ni barhau.
- Os felly, byddwn yn gwneud iddo ddigwydd.





# Pryd allai hyn ddigwydd?

- 29 Gorffennaf 2026 – Rhaid cael barn pawb erbyn hyn
- Medi / Hydref 2026 – Y Cabinet yn ystyried barn pawb
- Hydref / Tachwedd 2026 – Gall pobl sy'n meddwl ei fod yn syniad gwael ddweud hynny wrthym ni.
- Ionawr / Chwefror 2027 – Y Cabinet yn gwneud y penderfyniad terfynol.





# Pryd gallai ysgolion gau ac agor

- 31 Awst 2027 – St Anthony yn cau
- 31 Awst 2027 – Dewi Sant, y Santes Fair a Sant Richard Gwyn yn stopio bod yn 3 ysgol wahanol
- 01 Medi 2027 - Dewi Sant, y Santes Fair a Sant Richard Gwyn yn uno dan enw newydd, ond dal ar agor yn eu safleoedd presennol
- 31 Awst 2030 - tri safle’r ysgol newydd yn cau
- 01 Medi 2030 – disgyblion yr ysgol newydd yn symud i adeiladau’r ysgol newydd yn y Fflint.





# Mwy o wybodaeth

Os wyt ti eisiau gwybod mwy, mae gwybodaeth ar gael ar y we mewn dogfen sy'n llawer mwy. Dos i:

www.siryfflint.gov.uk/moderneiddioysgolion





# Mae dy farn di’n bwysig

Rydyn ni wedi sôn am ein syniad ni, wedi dweud sut alli di gael mwy o wybodaeth ac wedi ateb unrhyw gwestiynau, ac rŵan mae hi’n bwysig iawn i ti ddweud beth rwyt ti’n ei feddwl.

Mae dy farn di’n bwysig.

Yn y llyfryn yma, mae lle i ti ysgrifennu unrhyw beth rwyt ti eisiau ei ddweud ac unrhyw syniadau sydd gennyt ti.





# Dy ysgol a dy oedran

## I ba ysgol wyt ti'n mynd rŵan a faint yw dy oed di?

Ysgrifenna dy atebion yn y blwch.





# Dy farn

**Wyt ti'n meddwl bod ein syniad yn un da, un gwael, neu ddim yn siŵr?**

Ysgrifenna dy atebion yn y blwch.





# Dy Resymau

**Pam wyt ti'n meddwl bod y cynnig yn un da, un gwael neu ddim yn siŵr?**

Ysgrifenna dy atebion yn y blwch.





# Dy syniadau



**Oes unrhyw beth arall rwyt ti eisiau ei weld yn digwydd yn lle hyn?**

Ysgrifenna dy atebion yn y blwch.



# Dy lais

## Wyt ti eisiau dweud unrhyw beth arall?

Ysgrifenna dy atebion yn y blwch.





# Beth sy'n digwydd nesaf?

Postia dy lyfryn wedi'i lenwi atom erbyn 29 Gorffennaf 2026 Yn anffodus, ni fyddwn yn gallu derbyn unrhyw beth y byddi yn ei anfon atom ar ôl y dyddiad hwnnw.

Cyfeiriad:  Y Tîm Moderneiddio Ysgolion, Tŷ Dewi Sant, Parc Dewi Sant, Ewlo, Sir y Fflint, CH5 3FF

Neu mi alli di e-bostio dy sylwadau at:
CatholicEducationConsultation@flintshire.gov.uk





# Diolch yn fawr!



